**Rebecca Evans AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Deputy Minister for Farming and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/RE/3703/15

Aelodau Cynulliad

29 Medi 2015

Annwyl Aelodau,

**CYNLLUN Y TALIAD SYLFAENOL – AMSERU'R TALIADAU**

Cafodd cynigion y Comisiwn Ewropeaidd i lacio rhai rheolau eu cymeradwyo gan Gyngor Gweinidogion Fferm yr UE cyn dechrau cyfnod talu rhagdaliadau ar 16 Hydref, ond ni chafwyd digon o amser i Lywodraeth Cymru allu manteisio arnynt. Mae'r rheolau ynghylch archwiliadau safle wedi'u llacio ond rhaid cynnal a chwblhau pob archwiliad gweinyddol cyn talu unrhyw ragdaliad. Ni fydd modd cwblhau'r archwiliadau gweinyddol hyn mewn pryd i allu talu rhagdaliadau.

Ein nod yw talu rhandaliadau i gynifer o ffermwyr ag y bo modd yn fuan ar ôl dechrau'r cyfnod talu sy'n dechrau ar 1 Rhagfyr 2015 ac yn cau ar 30 Mehefin 2016. Byddwn yn dechrau talu'r rhandaliadau ym mis Rhagfyr ac yn disgwyl talu gwerth rhyw 70% neu 80% o werth y taliad llawn. Telir y gweddill rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2016. Rydyn ni wedi dweud wrth ffermwyr yn gyson am y drefn hon, ac yn ddiweddar fe gwrddais â chynrychiolwyr y banciau hefyd i esbonio pryd y gall ffermwyr ddisgwyl cael eu taliadau.

Mae Cynllun newydd y Taliad Sylfaenol yn symud o'r drefn hanesyddol o roi taliadau uniongyrchol i drefn daliadau newydd sy'n seiliedig ar arwynebedd. O'r herwydd, mae mwy o fesurau rheoli i'w bodloni, sy'n golygu bod angen mwy o amser i brosesu pob cais. Ar ben hynny, ni fyddwn yn gallu dweud faint y bydd pob ffermwr yn cael ei hawlio tan y gwanwyn oherwydd dim ond bryd hynny y byddwn yn gwybod faint o dir sy'n gymwys. Dyna pam na allwn ni roi'r taliadau llawn i'r ffermwyr o'r dechrau'n deg.

Deallaf nad yw unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig yn rhoi rhagdaliadau i ffermwyr ym mis Hydref. Mae pob gwlad yn canolbwyntio ar dalu cynifer ag y bo modd o ffermwyr o fis Rhagfyr 2015 ymlaen.

Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*